**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 08: £39,355 – £45,413 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan fis Rhagfyr 2027. |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton. Mae'r SPMH yn cefnogi gweithio ystwyth. |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ar brosiectau amrywiol yn y portffolio Atal Hunanladdiad ac Iechyd Meddwl (SPMH), gan gynnwys Datamind, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Atal Hunan-niweidio a Hunanladdiad a Chanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc. Mae'r tîm dan arweiniad yr Athro Ann John yn gweithio ar brosiectau sy'n rhan o bortffolio gwerth dros £10M gan gynnig cyfle ardderchog i gyfrannu at ymchwil sy'n torri tir newydd ym maes iechyd meddwl poblogaethau.<br><br>**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**<br>1. Prosesu a dadansoddi data o sawl ffynhonnell ym manc data SAIL, gan gynnwys cofnodion iechyd, data gofal cymdeithasol a data addysgol<br>2. Gweithio ar nifer o gwestiynau ymchwil ym mhortffolio'r tîm, yn bennaf gydag e-Garfan Cleifion Hydredol cenedl gyfan Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc<br>3. Ymgymryd â gwaith dadansoddi data hynod gymhleth a strwythuredig, gan ymdrin yn briodol â chofnodion a allai fod wedi'u dyblygu, data sydd ar goll a gwallus, a dogfennu'r fethodoleg |
| | 4. Cydweithredu â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol<br>5. Ysgrifennu adroddiadau a phapurau a chyflwyno canlyniadau ymchwil i gymheiriaid mewn cynadleddau a chydweithrediadau diwydiant<br>6. Ymgymryd ag ymchwil a chyfrannu at ymchwil yn rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, a chyflwyno canlyniadau<br>7. Bod yn hunangymhellol, cymhwyso a defnyddio menter, â'r nod o ddod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau<br>8. Bod yn greadigol wrth ddadansoddi a dehongli data ymchwil a llunio casgliadau ar sail y canlyniadau.<br>9. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill<br>10. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol<br>11. Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes<br>12. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill<br>13. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil<br>14. Brwdfrydedd am gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. PhD mewn Epidemioleg, Ystadegau, Gwyddor Data, Seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig |

| | |
|---|---|
| | 2. Tystiolaeth o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i gynllunio ymchwil ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol<br>4. Y gallu i ddangos ffocws a chyfeiriad annibynnol sylweddol mewn ymchwil<br>5. Tystiolaeth o arbenigedd mewn rhaglennu gan ddefnyddio ieithoedd megis SQL ac R<br>6. Profiad o ddadansoddi setiau data gofal iechyd ar raddfa fawr<br>7. Tystiolaeth o ddylunio a chynnal dadansoddiadau cymhleth a dehongli'r canlyniadau<br>8. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>9. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>10. Profiad ym maes ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd<br>11. Profiad o ddadansoddi data gofal iechyd cyffredinol<br>12. Gwybodaeth am epidemioleg seiciatrig<br>13. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig<br>14. Profiad o fodelu rhagfynegol a dulliau dysgu peirianyddol<br>15. Hanes o gyhoeddi mewn maes perthnasol |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |